

Arholiadau Aelodaeth Gyflawn 22 Ebrill 2023

Adroddiad Cyffredinol

Y diffiniad o Aelodaeth Gyflawn:

Mae safon Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar y cyfieithydd angen unrhyw oruchwyliaeth. Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu cyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Tud. 2

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Tud. 6

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 10

Llwyddo: 2

Dau ymgeisydd yn unig a lwyddodd y tro hwn, sydd braidd yn siomedig. Er bod pob un o'r ymgeiswyr wedi dangos y gallu i gyfieithu'n dda, ni chynhaliwyd y safon honno'n gyson ar draws y tri darn. Yn gyffredinol, cafodd yr ymgeiswyr well hwyl ar yr ail ddarn arholiad na'r un cyntaf, efallai oherwydd ei fod yn fwy nodweddiadol o ddarn y gallent ddod ar ei draws wrth eu gwaith pob dydd. Fodd bynnag, dylai cyfieithydd sydd wedi cyrraedd lefel Aelodaeth Gyflawn allu ymdopi ag unrhyw destun a gyflwynir iddo: yr un yw hanfodion cyfieithu ni waeth beth fo'r testun dan sylw, a disgwylir i gyfieithydd medrus allu llunio brawddegau ystyrllon a chywir sy'n argyhoeddi yn yr iaith darged. Tynnir sylw at y diffiniad o Aelodaeth Gyflawn uchod sy'n dweud '*Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu cyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.*' Mae hynny, i bob pwrpas, yn rhoi trwydded i gyfieithwyr gyfieithu heb oruchwyliaeth, ac yn yr un modd yn dangos i gwsmeriaid y gallant ymddiried yn y cyfieithwyr hynny i gyflwyno gwaith di-fai. Cofier hefyd fod cyfieithwyr yn aml yn gweithio dan bwysau ac yn gorfod cynhyrchu gwaith ar frys o fewn terfynau amser tynn, heb adael i'r safon lithro. Nid yw hyn yn annhebyg i amodau arholiad. Mae'n ddyletswydd ar y marcwyr i fod yn hyderus bod ymgeiswyr yn deilwng o'r statws, felly mae'r trothwy ar gyfer llwyddo yn uchel.

Fel y soniwyd uchod, cafodd nifer o'r ymgeiswyr fwy o drafferth â'r darn arholiad cyntaf. Roedd ambell frawddeg benodol wedi peri anhawster, e.e.:

Any decent teacher knows that if a student arrives at an answer by themselves, instead of simply being given it, there is a better chance they'll remember it.

Cafwyd cynigion aflwyddiannus, fel:

...os bydd myfyriwr yn dod o hyd i ateb yn annibynnol, yn hytrach na derbyn ateb yn y lle cyntaf...

...os daw disgybl at yr ateb dan ei stêm ei hun, yn lle dim ond ei gael gan yr athro... Mae unrhyw athro digonol yn gwybod os yw myfyriwr yn dod i ateb ar ei ben ei hun, yn hytrach na'i gael yn unig, mae'n fwy tebygol y gwnaiff ei gofio.

Dyma gynnig derbyniol:

Fel y mae unrhyw athro gwerth ei halen yn gwybod, mae myfyriwr sydd wedi cyrraedd ateb ar ei ben ei hun yn fwy tebygol o'i gofio na phe bai rhywun wedi'i roi ar blât iddo.

Sylwer hefyd nad yw ***athro digonol*** yn gyfieithiad priodol o *decent teacher*, llawer gwell yw'r ymadrodd ***gwerth ei halen***. Roedd dewis amhriodol o eirfa yn wendid amlwg yn y darn cyntaf, lle gwelwyd ymgeiswyr yn defnyddio geiriau fel ***diagnosio, plantas, barnau, offerynnau*** (*tools*), ***graddfeydd*** (*grades* ym maes addysg), ***parthau/teyrnas*** (*realm* – byddai 'byd' yn fwy priodol i'r cyd-destun). Roedd y dewisiadau hyn yn chwithig ac yn amharu ar rediad y darn.

Mewn modd tebyg, 'addysg yn Sweden' yw'r cyfieithiad iawn o *Swedish education*, nid ***addysg Swedaidd***, ac roedd sawl enghraifft arall o gamgyfleu'r ystyr, e.e.

...teachers are depressed by...

...mae athrawon yn dioddef iselder o ganlyniad i...

...mae athrawon dan y lach...

...“post-truth” business...

...testun “ôl-wirionedd”...

Why, therefore, are we failing, at a time when knowledge is more extensive and accessible than ever, to encourage and express it?

Pam felly, ydym yn methu i'w annog a'i fynegi ar adeg pan fo mwy o wybodaeth i'w chael a'i bod yn haws i'w chyrchu nag erioed?

Nid yw'r frawddeg uchod yn ddealladwy oherwydd nid yw'n glir beth sydd dan sylw ar y dechrau. Mae'r cynnig isod yn well:

Pam, felly, ydym ni'n methu hybu a mynegi gwybodaeth, ar adeg pan yw'n fwy helaeth a hygyrch nag erioed?

Roedd y cymal *enlivening the pursuit of knowledge* wedi baglu rhai ymgeiswyr hefyd:
...sirioli'r ymchwil am wybodaeth...

Fel y soniwyd ar y dechrau, er bod y darn yn heriol, disgwylir i gyfieithwyr medrus roi sylw gofalus i'r ystyr a llunio cyfieithiad sydd nid yn unig yn ffyddlon i'r testun Saesneg ond yn argyhoeddi fel darn Cymraeg gwreiddiol.

Roedd y cyfieithiadau a luniwyd o'r ail ddarn yn fwy hyderus ar y cyfan, ond nid yn ddi-fai. Achosodd y cymal *emerge from two pandemic-hit years* drafferth i rai:

...ddychwelyd o ergyd ddwy flynedd mewn pandemig...

...wrth iddi ddechrau dod o allan o ddwy flynedd a drawyd gan y pandemig... (sylwer ar yr 'o' diangen hefyd)

...yn union yn sgil dwy flynedd y cafodd y pandemig ergyd arnynt...

Yn ogystal â'r cymal *people will either stop giving or not start*:

...y bydd pobl naill a'i rhoi'r gorau i wneud rhoddion neu'n peidio â dechrau i wneud hynny.

...na fydd pobl unai'n dechrau nac yn parhau i gyfrannu bellach...

Yn debyg iawn i'r darn cyntaf, roedd enghreifftiau niferus o gywair anaddas yn effeithio ar y cyfieithiadau o'r darn hwn hefyd. Nid oedd dewisiadau fel **adnoddu**, **sionc**, **gyfarparu**, **atgyfodi** (*emerge*) ac **ariannu dirywiol** yn taro deuddeg. Ar ben hynny, roedd mwy o wallau teipio esgeulus yn yr ail ddarn, megis **ail-ystytied**, **gyfyngau**, **ar gyfer ar gyfer**, **maen** (mae'n), **mae ar 86% o elusennau yn poeni**. Mae'n siŵr mai diffyg prawfddarllen yn ofalus, ac efallai prinder amser, sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gwallau hyn. Fodd bynnag, fel y nodwyd ar y dechrau, mae'n gyffredin i gyfieithwyr orfod cynhyrchu gwaith dan bwysau ac mae'n rhaid meithrin sgiliau prawfddarllen craff er mwyn atal mân frychau fel y rhain rhag syrthio drwy'r rhwyd, yn ogystal â sylwi ar unrhyw rannau chwithig sy'n effeithio ar lif cyffredinol y darn.

Ni lwyddwyd i gyfleu'r ystyr iawn yn yr enghreifftiau isod ychwaith:

younger donors
pobl ifanc

...via external and third-party donation channels.

...thrw y ddulliau allanol neu drwy drydydd person.

...drwy gyfryngau cyfrannu allanol a thrydydd partïon.

...the war in Ukraine and soaring energy prices...

...y rhyfel ar Wcráin a phrisiau esgynnol...

Roedd un ymgeisydd wedi hepgor *proactively and strategically* a defnyddiodd sawl un yr ansoddair **demograffig** yn hytrach na'r enw 'demograffeg' wrth gyfieithu *demographic*.

Er hynny, gwelwyd enghreifftiau o gyfieithu effeithiol, graenus yng ngwaith pob un o'r ymgeiswyr, gan gynnwys y canlynol:

Students have the right to develop their own opinions, and should be offered tools to aid critical thinking.

Mae gan fyfyrwyr yr hawl i ddatblygu eu barn eu hunain, a dylid cynnig yr adnoddau iddynt i'w helpu i feddwl yn feirniadol.

...as well as facing abuse and intimidation by their students.

...a hynny ar ben wynebu ymddygiad sarhaus a bygythiol gan eu myfyrwyr.

...amplified by the economic effects of the war in Ukraine and soaring energy prices...

...wedi'i waethygu gan effeithiau economaidd y rhyfel yn Wcráin a phrisiau ynni sy'n codi'n aruthrol...

...as it begins to emerge from two pandemic-hit years...

...ar ôl dioddef am ddwy flynedd yn ystod y pandemig...

...make ends meet...

...cael deupen llinyn ynghyd...

...grappling with declining funding and rising costs.

...ymdopi â llai o gyllid a mwy o gostau.

It may also make sense to proactively and strategically target younger donors...

Gallai hefyd wneud synnwyr i dargedu rhoddwyr iau yn rhagweithiol ac yn strategol...

Gosodwyd darn i'w gyfieithu cyn yr arholiad, yn ôl yr arfer. Diben y darn hwn yw rhoi cyfle teg i'r ymgeiswyr ddangos eu doniau heb y pwysau sy'n gysylltiedig ag amodau arholiad. Mae'r amser ychwanegol a roddir iddynt i ymchwilio a mireinio yn golygu bod y marcwyr yn disgwyl gweld eu gwaith gorau. Er bod y darn a osodwyd yn heriol, roedd ôl meddwl ar y gwaith a gyflwynwyd ac roedd sawl ymgeisydd wedi cyflwyno cyfieithiad graenus at ei gilydd a oedd yn rhagori ar eu darnau arholiad mewn sawl achos.

Gwelwyd enghreifftiau o gyfieithu crefftus, e.e.:

This was fast, powerful, beautiful choral singing and professional musicianship on another level.

Dyma beth oedd canu corawl bendigedig, cyflym a grymus, a dawn gerddorol broffesiynol ar lefel gwbl wahanol.

This group is not just any professional choir.

Nid côr proffesiynol cyffredin mo hwn.

...none can hold a candle to...

...ond ni all yr un gymharu â...

Roedd sawl un wedi cyfieithu'r idiom hwn yn llythrennol trwy ddweud ***dal kannwyll***, ond mae'r enghraifft uchod yn fwy naturiol.

Braf oedd gweld ambell ymgeisydd yn defnyddio'r gair ***caffaeliad*** i gyfieithu *asset*, sy'n gweddu'n dda i'r cyd-destun.

Roedd enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus fel y rhain i'w gweld yng ngwaith pob un o'r ymgeiswyr, ond yn anffodus, ochr yn ochr â hwy, cafwyd cyfieithu nad oedd yn taro deuddeg.

Cafodd sawl un drafferth cyfleu ystyr *sight-read* yn iawn (darllen cerddoriaeth ar yr olwg gyntaf):

...gallu canu, a chanu ar yr olwg gyntaf...

...gallu canu a darllen ar yr olwg gyntaf...

...medrwn ganu a darllen rhywbeth ar yr olwg gyntaf...

Rhyfedd oedd gweld un ymgeisydd yn cyfieithu *two weeks* fel **dwy wythnos** yn lle 'pythefnos'.

Roedd y gwaith a gyflwynwyd yn lân at ei gilydd, heblaw am ambell lithriad:

...treuliais yr 18 mis cyntaf yn canu mymryn ar ôl... (mae angen treiglo'r adferf 'mymryn')

...ond ni allai dim [fod] wedi fy mharatoi...

Baglodd sawl un wrth geisio cyfieithu *either or*:

...no one else could do it either as well or as quickly...

...mor dda na mor gyflym...

...mor dda neu mor gyflym...

...na chystal na'r un mor gyflym...

...cystal neu'r un mor gyflym...

Ac yn yr un cymal dewisodd sawl ymgeisydd gyfieithu *no one else* drwy ddweud **unrhyw un (gan na allai unrhyw un arall)** pan fyddai 'neb' yn fwy naturiol. Mae'n bosibl mai dylanwad y Saesneg sy'n gyfrifol am hynny.

Roedd pob un o'r ymgeiswyr wedi dangos y gallu i lunio cyfieithiadau graenus ac effeithiol. Fodd bynnag, yr her ar y lefel hon yw cynnal y safon uchel honno'n gyson ar draws y tri darn. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd darllen gwaith yn drylwyr, oherwydd bod hynny'n gyfle i atal unrhyw fân wallau rhag syrthio trwy'r rhwyd, yn ogystal â chaboli'r cyfieithiad yn ei gyfanrwydd er mwyn argyhoeddi'r darlennydd mai darn Cymraeg gwreiddiol ydyw. Anogir darpar ymgeiswyr i achub ar bob cyfle i fireinio eu sgiliau ymhellach, ac yn enwedig eu sgiliau prawfddarllen, er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt lwyddo.

Wrth gloi'r adroddiad hwn, hoffwn ddiolch o galon i holl aelodau'r Bwrdd Arholi ac i staff y swyddfa am eu gwaith trylwyr a'u holl gymorth a'u cefnogaeth i'r Dirprwy Brif Arholwr.

Y Dirprwy Arholwr i'r Gymraeg

Mehefin 2023

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 7
Llwyddo: 2

Mae statws Cyflawn yn uchel, felly dylai'r cynigion ymgyrraedd at yr un safon. Er mai dau yn unig a lwyddodd yn yr arholiad y tro hwn, roedd y cyfieithiadau yn eithaf boddhaol ar y cyfan a'r gwaith yn lân. Ychydig iawn o enghreifftiau o wallau technegol, fel camsillafu, a welwyd, ac roedd nodweddion i'w canmol ym mhob un o'r ceisiadau. Serch hynny, ar y lefel hon disgwylir nid yn unig gywirdeb iaith ond hefyd ddealltwriaeth lwyr o gystrawen ac idiomau'r Saesneg ac ar ben hynny ymwybyddiaeth gadarn o gywair a chyddestun, ynghyd â gwybodaeth gyffredinol dda. Yn anffodus ni lwyddodd yr ymgeiswyr gwannaf i fodloni'r gofynion hyn ac nid oedd gwaith y goreuon yn ddi-fai drwyddo draw.

Fel y nodwyd uchod, gwelwyd sawl enghraifft o gyfieithu da:

taten boeth

hot potato

Teimlai'r arholwyr bod hon yn un enghraifft lle'r oedd cyfieithiad llythrennol yn dderbyniol, gan fod yr idiom yn bodoli yn Saesneg hefyd, a chan ei fod yn gysylltiedig â thestun y darn, sef bwyd. Er hynny, roedd cyfieithiadau eraill megis **hot topic** yn dderbyniol.

Rhydd i bawb ei farn ac i bob barn ei llafar

Everyone is entitled to their own opinion and to voice that opinion.

Mae'r dywediad Cymraeg cyffredin hwn yn cynnwys dwy ran, sef, bod gan bawb hawl i'w barn a bod ganddynt hefyd yr hawl i leisio'r farn honno. Ychydig oedd wedi cyfleu ystyr y ddwy ran.

y byd a'i frawd a'i gath

the world and his wife

Dyma'r ymadrodd arferol yn Saesneg, neu weithiau 'the world and his wife and his dog'! Roedd ambell un wedi dewis **all and sundry** oedd hefyd yn gyfieithiad da.

pripsyn o wahaniaeth

a ha'porth of difference/ blind bit of difference

Darn newyddiadurol ei naws oedd y darn cyn yr arholiad oedd yn galw am gywair anffurfiol.

yn cadw cyfraith a threfn

the custodians of law and order

mentrodd y Gorsaf-Feistr

The Stationmaster risked it.

yn barod i gamu mewn ar y cyfle cyntaf

ready to step in at the earliest opportunity

[t]aro yn erbyn y trê

collided with the train

Y peth oedd yn fy nghorddi fwyaf

The thing which riled me the most

elw rhyfeddol

eye-watering profit

Un peth ydy cymryd yn araf a chreulon oddi ar y Gymraeg rai o'i chymunedau olaf drwy rymoedd y farchnad rydd.

It's one thing for the forces of the free market to slowly and cruelly deprive the Welsh language of some of its last communities.

Y gwir plaen amdani
The fact of the matter

mewn dau fywyd
in a month of Sundays

Cyfieithu gwael/camgymeriadau:

ambell un
the odd one

Cyfieithu llythrennol. Byddai 'a few' neu 'some' yn ateb y diben.

Ond y 'dim byd' yw'r pwynt
But these bare essentials are the point

Mae hyn yn colli ergyd y darn, sef, bod y cwpwrdd yn gwbl wag.

heb fodd i goginio na chynhesu bwyd
unable to cook or heat food

Nid yw'r erthygl yn awgrymu nad oes gan y bobl hyn sgiliau coginio, ond nad oes ganddyn nhw'r modd i wneud hynny (h.y. diffyg arian, diffyg cyfleusterau).

[b]ocsys bwyd oer
cold lunchboxes

pasta yn ddjarhebol o rad
pasta is notoriously cheap

Ystyr 'notorious' yw 'enwog am resymau drwg'. Ymysg y cynigion llwyddiannus cafwyd ***famously cheap*** neu ***incredibly cheap***. Mae'r ymadrodd '*notoriously cheap*' i'w weld y dyddiau hyn ond mewn cyd-destun gwahanol, i gyfeirio at rywun cybyddlyd e.e. '*rich people are notoriously cheap*'!

maethlon
nutritional

plismon
police officer

Dylai'r cyfieithydd fod yn ymwybodol o'r cyd-destun hanesyddol. Yn y 50au a'r 60au byddai 'plismon pentref' bron yn ddieithriad yn ddyn, a byddai '*policeman*' yn gyfieithiad naturiol.

beirdd
bards

Gair cyffredin, pob dydd yw 'bardd' yn Gymraeg ac mae angen gair cyffredin, pob dydd yn Saesneg i gyfateb iddo, sef '*poet*'. Gair hen ffasiwn iawn yw '*bards*' ac nid yw'n cyfateb o ran cywair.

rhag ofn y byddai'r beirdd yn dod i wybod
in case the bards would come to hear of it

Siomedig oedd canfod bod ambell ymgeisydd ar y lefel Gyflawn yn ansicr o gystrawen y Saesneg. Yn yr amser gorffennol dilynir '*in case*' gan y gorffennol syml e.e. '*I took my umbrella in case it rained.*'

Efallai byddai rhywun wedi cael llymaid yn ormod yn y dafarn...

Perhaps someone would've had a little drink too many

Aeth y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i drafferthion yn y paragraff hwn, oherwydd ansicrwydd ynghylch cystrawen y Saesneg. Tair ffordd o gyfieithu posiblwydd yn y gorffennol yn

Saesneg yw 'perhaps/maybe + gorffennol syml' neu ddefnyddio 'might' neu weithiau 'could' e.e 'Perhaps someone had had a drink too many' neu 'Someone might have had a drink too many'.

ofn pechu'n erbyn yr un o'r ddau

feared sinning against either

Ystyr 'pechu' yn y cyd-destun hwn yw 'offend'.

gwirionedd yr uchod

the verity of the above

Mae **verity** yn gywir ond nid yw'n gweddu i'r cywair.

roedd i fod i gadw oed

he was due to keep a date

Cyfieithu llythrennol. Cafwyd cynigion gwell megis **he was supposed to go on a date**.

yn barod i gamu mewn

ready to step into the breach

Ar y lefel hon disgwylir y bydd ymgeiswyr yn deall arlliw ystyr idiomaau Saesneg. Idiom o fydd rhyfel yw 'step into the breach' sy'n golygu 'ymgymryd â thasg neu gyfrifoldeb y mae rhywun arall yn methu â'i wneud' fel arfer yng nghyd-destun salwch, amgylchiadau anodd. Yn y cyd-destun hwn byddai 'step in' neu 'take his place' yn gweithio'n well.

mentrodd

obliged

Rhy wan. Byddai 'risked it' yn well.

a tharo yn erbyn y trê

and hit against the train

Cyfieithu llythrennol.

heb hidio o gwbl

without a care in the world about

Cymysgu dau ymadrodd, sef, 'without a care in the world' a 'caring about'.

[p]lant Gwynedd - iawn i'w rhieni nhw rentu mae'n siŵr

the children of Gwynedd - I expect it's fine for them to rent

Ymddengys fod yr ymgeisydd wedi darllen 'rhieni' yn lle 'rhieni' ond mae hyn yn dangos pwysigrwydd deall y cyd-destun. Fyddai plant ddim yn rhentu eiddo.

roedd bwriad i roi arian i Gymdeithas y Plant

there was an intention to give money to the Children's Society

Nid oes dim byd o'i le mewn cyfieithu'n llythrennol os yw'r cyfieithiad yn naturiol yn yr iaith darged ond mae'r cyfieithiad llythrennol hwn yn taro'n chwithig. Gwell fuasai 'they intended to give money...'

mewn dau fywyd

even if they lived two lives

bod trefnwyr y raffl yn gwybod

The raffle's organisers know

Mewn ymadrodd enwol sy'n dechrau â 'bod' rhaid deall amser y ferf o'r cyd-destun. Yn yr achos hwn, sôn am rywbeth sydd wedi digwydd mae'r erthygl felly 'knew' yw'r cyfieithiad cywir. Unwaith eto, mae deall a chyfieithu brawddeg yng nghyd-destun y darn cyfan yn eithriadol o bwysig.

Un peth ydy cymryd yn araf a chreulon oddi ar y Gymraeg rai o'i chymunedau olaf drwy rymoedd y farchnad rydd.

It is one thing to take away some of the last remaining Welsh-speaking communities slowly and ruthlessly through the powers of the free market.

Ychydig a lwyddodd i gyfleu ystyr y frawddeg gymhleth hon mewn ffordd naturiol. 'Forces' sy'n gywir nid 'powers' a hefyd rhyw fras gyfieithiad a geir yma, nad yw'n cynnwys yr ystyr i gyd.

[d]wy elfen annatod

inexplicably linked (*yn lle 'inextricably linked'*)

Diffyg prawfddarllen.

Er y namau hyn, roedd yr ymdrechion a lwyddodd yn gyfieithiadau derbyniol iawn ac yn llawn haeddu llwyddo ar y lefel Gyflawn. Roedd yn rhai o'r ymdrechion a fethodd hefyd rannau derbyniol iawn, a byddai mwy o ofal, fel bob amser, wedi eu codi i'r lefel i lwyddo. I gloi, hoffwn ddiolch o galon i staff Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru ac aelodau'r Bwrdd Arholi Testunau am eu gwaith proffesiynol a diwyd.

Y Dirprwy Arholwr i'r Saesneg

Mehfin 2023